**Arbedion Ynni yn Ysgol Pendalar**

Ni does rhaid gwario ffortiwn ar offer a thechnoleg newydd i leihau biliau ynni, fel all un o Ysgolion Gaernarfon ardystio.

Mae Ysgol Pendalar wedi gweld arbedion sylweddol yn eu defnydd o nwy a thrydan dros y flwyddyn diwethaf, yn arbed £2,000 – oddeutu 10% - dros 12 mis.

Cafodd yr arbedion hyn eu cyflawni drwy wneud pethau syml a digost megis rheolaeth effeithlon o reolyddion gwres, a throi offer i ffwrdd pan nad oes ei angen.

Mae llwyddo i wneud yr arbedion hyn o ganlyniad i ymddygiad y staff a'r disgyblion, ac yn bennaf ymrwymiad y Gofalwr, Richard Jones, sydd yn cadw llygad agos ar sut mae adnoddau a systemau yr adeilad yn cael eu defnyddio.

Dywedodd Donna Rees-Jones, Pennaeth yr Ysgol:
"Rydym wedi ceisio bod yn fwy gofalus gyda'r trydan a nwy da ni yn ei ddefnyddio ers cychwyn y flwyddyn. Rydym wedi sylwi fod modd bod yn fwy effeithlon yn ogystal a bod yn fwy cysurus drwy reoli ein systemau presennol yn ofalus"

"Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion da ni wedi eu cyflawni wedi eu gwneud drwy sicrhau fod y gwres yn dod ymlaen pan mae ei angen yn unig, a sicrhau nad yw'n rhy boeth. Mae Richard (y Gofalwr) yn gyfrifol am addasu'r rheolyddion fel sydd angen. Mae'n angenrheidiol i hyn gael ei wneud yn gyson gan fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned leol ar gyfer llu o weithgareddau tu allan i oriau arferol yr Ysgol. Golyga hyn fod oriau agor yr Ysgol yn amrywio o wythnos i wythnos."

Bu'r Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd yng Ngwynedd yn ymweld a'r Ysgol yn ddiweddar er mwyn diolch i staff a disgyblion am eu ymroddiad i leihau ôl troed carbon yr Ysgol. Dywedodd Cyng. Gareth Roberts:

“Rhaid i ni gymeradwyo perfformiad ynni Ysgol Pendalar dros y flwyddyn diwethaf. Mae’n dangos i ni fod modd cael cryn effaith ar yr ynni rydym yn ei ddefnyddio drwy addasu’r ffordd rydym yn ymddwyn”

“rwyf yn falch iawn fod yr Ysgol wedi dangos gymaint o ymrwymiad i wella ac i fod yn fwy ‘gwyrdd’. Mae nhw wedi dangos fod modd lleihau ein defnydd o drydan a nwy gryn dipyn heb orfod gwario ceiniog ar offer a thechnoleg, a hefyd heb aberthu eu amodau cysur – esiampl da i ni gyd”

“credaf y gallwn i gyd ddilyn yr esiampl hwn drwy ymdrechu i ddeall y systemau sydd gennym yn ei le a’n bod yn ceisio rheoli rhain i gyd-fynd a’n anghenion er mwyn lleihau’r ynni da ni yn ei wastraffu”

Mae Ysgol Pendalar yn Ysgol Addysg anghenion Arbennig ar gyfer disgyblion 3-19 oed, a cafodd yr adeilad ei adeiladu yn arbennig ar eu cyfer yn 2007. Mae’r Ysgol wedi ei gyfarparu ar gyfer anghenion y disgyblion ac mae hyn yn cynnwys pwll hydrotherapi sydd angen cael ei gynhesu i 30 gradd. Mae biliau ynni yr Ysgol yn gyson dros £25,000 y flwyddyn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon ers 2010 sydd yn gosod targedau heriol i leihau ôl troed carbon yr Cyngor 30% erbyn 2015. Mae hyn yn her ac ni fyddai’n bosib eu cyrraedd heb ymrwymiad a chysegriad staff a defnyddwyr adeiladau, fel sy’n cael ei arddangos gan Ysgol Pendalar.